Gwrandwch!

Plant yn Siarad: Am Smacio

Anne Crowley a Cea Vulliamy

Save the Children
Achub y Plant

Achub y Plant

Achub y Plant yw prif elusen plant rhyngwladol y Deyrnas Unedig, yn gweithio i greu dyfodol gwell i blant.

Mewn byd lle na chaiff rhai plant hawliau dynol sylfaenol, rydym ni'n sefyll dros hawl pob plentyn i fwynhau plentyndod hapus, iach a diogel. Rydym wedi ymrwymo'n arbennig i wrando ar blant a dysgu oddi wrthynt, a chodi'n llais ynglŷn â'r problemau a wynebant.

Defnyddiwn ein gwaith prosiect a'n hymchwil fyd-eang i bwyso am newidiadau a fydd er budd plant ym mhobman, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn gwrthwynebu trais o unrhyw fath yn erbyn plant ac ymgyrchwn i roi diwedd ar bob trais o'r fath. Yn ein prosiectau ar draws y byd gweithiwn ar gynlluniau i atal trais. Rhoddwn gymorth hefyd i blant wella ar ôl dioddef trais.

Credwn fod gan blant yr un hawl i'w hamddiffyn rhag trais ag sydd gan oedolion. Rydym yn pwyso am newid yng nghyfraith y Deyrnas Unedig i'w gwneud yn anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol.

Hoffai Achub y Plant egluro fod y llun ar glawr blaen yr adroddiad hwn yn un o gyfres a ddefnyddiwyd i hyrwyddo hawliau plant i fynegi eu barn. Nid oedd y plant a ddarlunnir yn y llun yn rhan o destun yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad uniongyrchol â thestun yr adroddiad.

Plant yn Siarad: Am Smacio

Bu cryn ddadl ynghylch cosb gorfforol i blant yn y Deyrnas Unedig. Beirniadwyd y Llywodraeth gan Lys Iawnderau Dynol Ewrop a chan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn am fethu diogelu plant rhag ymosodiadau corfforol, ac eto mae wedi dal ati i wrthod newid y ddeddf sy'n caniatáu i rieni ac eraill daro plant gan ddefnyddio amddiffyniad 'cerydd rhesymol'. Yn yr adroddiad hwn cyflwynir sylwadau a phrofiadau dros 70 o blant ifanc sy'n byw yng Nghymru.

Cyfarfu ymchwilwyr â phlant mewn ysgolion cynradd a chlybiau ar ôl ysgol ledled Cymru, a chan ddefnyddio cymeriad arallfydol o'r enw Splodge, gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt ynghylch smacio – beth ydyw, sut deimlad ydyw a pham y mae'n digwydd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r atebion a roddodd plant ac yn adolygu'r negeseuon allweddol ynglŷn â smacio: negeseuon gan blant ifanc i oedolion, yn rhieni ac yn bobl sy'n llunio polisïau. Mae profiadau a sylwadau plant ynglŷn â smacio yn rhoi darlun grymus inni o effaith taro plant ac yn cynnig neges glir mai pobl yw plant hefyd ac mai peth drwg yw taro plant.

Cynnwys

Diolchiadau		6
Pennod Un	Y Darlun Presennol	7
Pennod Dau	Methodoleg	14
Pennod Tri	Negeseuon Plant	16
Pennod Pedwar	Ymateb i Blant yn Siarad am Smacio	33
Cyfeiriadau		35
Atodiad		36

Diolchiadau

Hoffai *Achub y Plant* fynegi gwerthfawrogiad i'r ysgolion, Barnardo's a dau gorff gwirfoddol lleol a'n helpodd i gwrdd â phlant. Heb gydweithrediad cyflym a chefnogaeth lawn yr ysgolion a'r cyrff hyn, ni fuasai'r ymgynghori'n bosibl. Diolch hefyd i *Plant yng Nghymru*, *Dynamix* a *Hecate* am gefnogi ac am ddarparu'r hwyluswyr mewn ambell achos. Hoffai'r awduron ddiolch i Carolyne Willow a Tina Hyder a ymgymerodd â'r ymarferiad ymgynghori yn Lloegr, a efelychwyd gennym ni wedyn yng Nghymru. Roeddem yn gallu defnyddio'r fethodoleg a ddatblygwyd gan Carolyne a Tina. Roedd yn wych i'w defnyddio – yn syml ond effeithiol, ac roedd yn hwyl dod i adnabod 'Splodge'. Yn olaf, fel arfer, rhown ein diolch mwyaf i'r plant a siaradodd â ni ac a fu mor hael yn rhannu eu sylwadau a'u syniadau.

Pennod Un: **Y Darlun Presennol**

Cyflwyniad

Plant yw'r unig grwp o ddinasyddion yn y Deyrnas Unedig y mae'n gyfreithlon eu taro. Er gwaethaf newidiadau mewn agweddau yn y blynyddoedd diweddar ynghylch derbynioldeb trais corfforol tuag at ferched yn ein cymdeithas a chydnabyddiaeth fod taro plant yn fodd aneffeithiol a niweidiol o ddisgyblu plentyn, mae Llywodraeth y DU yn dal i fynnu amddiffyn 'hawl' rhieni i daro'u plentyn. Mae plant yn bobl hefyd a thra bo cosbi plant yn gorfforol yn parhau'n ddiwylliannol a chyfreithiol dderbyniol yn y DU, rydym yn torri egwyddorion sylfaenol iawnderau dynol, sef parch i urddas pobl a'u hintegriti corfforol a'u cydraddoldeb ger bron y gyfraith. Mae Achub y Plant yn ymgyrchu ochr yn ochr a nifer o gyrff eraill sy'n gweithio gyda phlant a throstynt, dros newid yn y gyfraith yn y DU i roi'r un warchodaeth i blant ag i oedolion dan y gyfraith ar ymosod corfforol. Nid mater o ymosod ar rieni yw hyn – rydym yn cydnabod fod magu plant yn dasg anodd a phwysig ac mae arnom eisiau i rieni gael cefnogaeth ac anogaeth yn eu gwaith pwysig, ond mae a wnelo hyn â pharchu hawliau dynol plant – nid fel rhai a fydd yn bobl ryw ddydd ond fel unigolion a chanddynt set lawn o hawliau dynol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i bawb sy'n cymryd rhan yn y ddadl glywed llais plant ifanc. Dyma'r bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan yr hyn a wna, neu'r hyn na wna, llunwyr polisïau sydd â'r grym ac, fe ddadleuem ni, y cyfrifoldeb, i newid y gyfraith a hyrwyddo dulliau cadarnhaol, di-drais o fagu plant. Mae'r adroddiad yn cyflwyno profiadau a sylwadau ar smacio gan 77 o blant ifanc, 4-10 mlwydd oed, sy'n byw yng Nghymru. Mae'n cynnwys hanesion plant am y teimlad o gael eu smacio a hefyd syniadau plant eu hunain ynghylch sut y gellid atal smacio. Mae Achub y Plant yn credu fod gan blant lawer o ddoethineb a gweledigaeth i'w gynnig ym mhob mater polisi cyhoeddus sy'n effeithio ar eu bywydau. Rydym yn fwriadol wedi dewis gwrando ar sylwadau a phrofiadau plant iau oherwydd gwyddom mai nhw sydd fwyaf tebygol o gael eu taro yn y cartref.

Mae deddfau cyfredol yn y DU yn seiliedig ar gysyniad 'cerydd rhesymol'. Yn dilyn dyfarniad pwysig yn Llys Iawnderau Dynol Ewrop, rhoddwyd rheidrwydd ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r gyfraith ar gosb gorfforol i blant. Ymateb y Llywodraeth oedd cyhoeddi papur ymgynghori dan y teitl Protecting Children, Supporting Parents (2000). Ni wnaeth y Llywodraeth unrhyw ddarpariaeth i geisio barn plant a phobl ifanc yn benodol – sef y rhai yr effeithid arnynt fwyaf gan y gyfraith. Serch hynny, dechreuodd Achub y Plant a Biwro Cenedlaethol y Plant brosiect ymgynghori arloesol a heriol i ganfod barn plant ifanc ar smacio. Cymerodd saith deg chwech o blant 5-9 oed o wahanol rannau o Loegr ran mewn trafodaethau grwp a chafodd eu sylwadau eu adborthi i'r Llywodraeth a'u cyhoeddi mewn adroddiad unigryw o'r enw "It Hurts Inside: Children Talking about Smacking" (1998).

Yng Nghymru gwnaed yr ymgynghori ar Protecting Children, Supporting Parents (2000) gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ran Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Adran Iechyd. Mynegodd Llywodraeth y Cynulliad ddiddordeb mewn clywed barn plant sy'n byw yng Nghymru, ac yn yr amser prin oedd ar gael cynhaliodd Achub y Plant a Plant yng Nghymru brosiect ymgynghori bach yn y De a'r Gorllewin. Felly bwydwyd sylwadau rhai plant ifanc yng Nghymru i ystyriaeth y Cynulliad a'r Adran Iechyd o'r gyfraith fel y mae'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol. Yn ystod 2001 a 2002, ymgynghorodd Achub y Plant ymhellach gyda phlant, a hynny y tro hwn gyda phlant oedd yn byw yn y Gogledd a'r Canolbarth.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r negeseuon gan y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau trafod yng Nghymru. Mae'r bennod hon yn gosod cyd-destun cosb gorfforol i blant yn y DU a cheir pennod olaf sy'n ystyried sut y gallem ymateb i negeseuon y plant.

Y Cefndir

Y gyfraith fel y mae'n berthnasol i Gosb Gorfforol i Blant

Fel y saif y gyfraith ar hyn o bryd, nid oes amddiffyniad i blant yn y DU rhag cael eu taro gan rieni a gofalwyr eraill. Mae gan rieni ryddid dan gyfraith gwlad i ddefnyddio 'cerydd rhesymol' ar eu plant. Mae'r gyfraith gyffredin hon yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif. Yn yr achos arweiniol yn 1860, dywedodd y Prif Ustus Cockburn:

> *'Dan gyfraith Lloegr, caiff rhiant… i ddiben cywiro'r hyn sydd yn ddrwg yn y plentyn, roi cosb gorfforol gymedrol a rhesymol, bob amser, serch hynny, gyda'r amod hwn, ei bod yn gymedrol a rhesymol.'*

Diddorol yw nodi pan gafodd plant warchodaeth gyfyngedig rhag rhieni am y tro cyntaf yn Neddf Amddiffyn ac Atal Creulondeb i Blant 1889, y daeth hyn dros 60 mlynedd wedi i ddeddfwriaeth debyg gael ei phasio i warchod anifeiliaid.

Gall rhieni a rhai gofalwyr eraill ddefnyddio'r amddiffyniad hwn o gerydd rhesymol i gyfiawnhau taro a hyd yn oed guro plant. Mae llysoedd y DU wedi cael rhieni'n ddieuog wedi iddynt gyfaddef taro'u plant â llaw neu ag offeryn, gan achosi poen ac anaf. Digwyddodd hyn am i farnwyr a rheithgorau dderbyn y fath gosb fel "cerydd rhesymol". Mae llysoedd yn y DU wedi cael yn ddieuog rieni a gyfaddefodd iddynt guro'u plant â gwregysau, ffyn, ceblau trydan, sodlau stileto – gan achosi cleisiau ac anafiadau eraill, ac a ddefnyddiodd amddiffyniad 'cerydd rhesymol' yn llwyddiannus i gyfiawnhau eu gweithredoedd.

Yn 1997, cyhoeddodd y Llywodraeth ei chynllun i adolygu'r ddeddf hon. Datganodd dyfarniad allweddol gan Lys Iawnderau Dynol Ewrop yn 1998 nad oedd cyfraith y DU yn amddiffyn plant yn ddigonol. Yn yr achos a ystyriwyd gan y Llys Ewropeaidd – A yn erbyn y Deyrnas Unedig – roedd bachgen ifanc wedi cael y gansen yn rheolaidd gan ei lystad. Canfu'r Llys Ewropeaidd yn unfrydol fod y gurfa'n groes i Erthygl 3 y Cytundeb ar Hawliau Dynol ('ni ddylai neb orfod dioddef triniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol') a bod cyfraith y DU wedi methu atal y tor Cytundeb hwnnw. Roedd rheithgor Prydeinig wedi cael y llystad, nad oedd yn gwadu'r curo, yn ddieuog yn 1994, gan dderbyn ei amddiffyniad ar sail 'cerydd rhesymol'. Condemniodd y Llywodraeth driniaeth y bachgen fel triniaeth "greulon, anfaddeuol nad oedd lle iddi mewn cymdeithas wâr" a derbyniodd fod yn rhaid adolygu'r gyfraith ar ddisgyblaeth gan rieni, er y dywedodd yn gyfeiliornus nad oedd a wnelo'r achos ddim â smacio. Nododd Paul Boateng, yr is-weinidog iechyd ar y pryd, "mae'r Llywodraeth hon yn credu mewn disgyblaeth gan rieni. Mae lle i smacio o fewn hynny, ac ni wnaiff ein cyfraith newid i'w wneud yn anghyfreithlon". Wedyn cyhoeddodd y Llywodraeth ei chynlluniau i gyhoeddi papur ymgynghori ar ddiwygio'r gyfraith. Fel y digwyddodd, ni wnaeth y papur ymgynghori hyd yn oed ystyried yr opsiwn o ddiwygiad cyfraith egwyddorol, gan ddewis gofyn i ymatebwyr am eu barn ar ble y gellid taro plant, a chyda beth.

Yn Nhachwedd 2001, yn dilyn ei hymgynghoriad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fyddai'n gwneud dim, er gwaethaf dyfarniad Llys Iawnderau Dynol Ewrop, i ddiwygio'r gyfraith ar gosb gorfforol i blant. Wrth gyhoeddi ei phenderfyniad i beidio â gwneud dim, datganodd Llywodraeth y DU fod cosbi plant yn gorfforol yn "rhan hanfodol o fywyd teulu" mewn "cymdeithas gyfrifol".

Yn Hydref 2002, daeth Llywodraeth y DU dan bwysau eto i ailystyried ei safiad ar gosb gorfforol i blant. Wrth ystyried adroddiad cyfnodol y DU, bu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn feirniadol dros ben o fethiant Llywodraeth y DU i wahardd cosbi plant yn gorfforol o fewn y teulu. Dywedodd adroddiad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn glir nad yw cynigion y llywodraeth i gyfyngu yn hytrach na dileu'r amddiffyniad 'cerydd rhesymol' ddim yn cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau Cytundeb y Cenhedloedd Unedig. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid mabwysiadu deddfwriaeth yn gwahardd cosbi plant yn gorfforol o fewn y teulu, gan arddel:

> "*ffurfiau cadarnhaol, cyfranogol a di-drais o ddisgyblu a pharch at hawl cydradd plant i urddas dynol ac integriti corfforol, gan ymwneud â phlant a rhieni a phawb sy'n gweithio gyda hwynt a throstynt, a chynnal rhaglenni addysgu'r cyhoedd ar ganlyniadau negyddol cosb gorfforol.*"

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi datgan yn gyson nad yw derbyn cosb gorfforol i blant yn y cartref yn gyfreithiol a chymdeithasol yn gydnaws â'r Cytundeb. Yn ei archwiliad cyntaf o'r modd y gweithredai'r DU Gytundeb y Cenhedloedd Unedig, yn 1995, argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylid gwahardd cosb gorfforol a beirniadodd fodolaeth yr amddiffyniad "cerydd rhesymol". Ers 1993, yn ei argymhellion wedi archwilio adroddiadau gan sawl Parti Gwladwriaethol i'r Cytundeb ar bob cyfandir, mae'r Pwyllgor wedi argymell gwahardd cosb gorfforol yn y teulu ac mewn sefydliadau, ac ymgyrchoedd addysgu i annog magu ac addysgu plant drwy ddulliau cadarnhaol, di-drais.

Yn 2002, cynhaliodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig Ddiwrnod Trafod Cyffredinol ar Drais yn erbyn Plant mewn Ysgolion ac o fewn y Teulu. Yn sgîl hynny, anogodd y Pwyllgor bob gwladwriaeth:

> "*i ddeddfu neu ddirymu ar fyrder eu deddfwriaeth er mwyn gwahardd pob ffurf ar drais, waeth pa mor ysgafn y bo, o fewn y teulu ac mewn ysgolion, gan gynnwys fel ffurf o ddisgyblaeth, fel sy'n ofynnol gan ddarpariaethau'r Cytundeb….*"

Mae argymhellion y Cytundeb a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn arwain at brysuro diwygio'r gyfraith dros y byd i gyd. Mewn rhai gwledydd gwaharddwyd cosb gorfforol mewn ysgolion a sefydliadau eraill ganrifoedd yn ôl. Mewn rhai gwledydd Ewropeaidd roedd gwaharddiad clir ar gosb gorfforol yn y cartref cyn sefydlu'r Cytundeb. Sweden oedd y wlad gyntaf i fabwysiadu deddf o'r fath, yn 1979. Cyflwynwyd gwaharddiadau clir ar gosb gorfforol gan rieni a phob gwarchodwr arall yn y gwledydd canlynol: Awstria (1989), Croatia (1999), Cyprus (1994), Denmarc (1997), y Ffindir (1983), yr Almaen (2000), Latfia (1998), Norwy (1997). Ar ben hynny, yn Ionawr 2000 gwnaed dyfarniad yng Ngoruchaf Lys Israel a waharddai bob cosb gorfforol ac mae hyn bellach wedi'i gadarnhau mewn deddfwriaeth gan y Knesset. Yn 1996 cyhoeddodd Goruchaf Lys yr Eidal fod pob cosb gorfforol yn anghyfreithlon.

Yn y DU, ar adeg ysgrifennu hyn, mae llywodraethau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bwriadu bwrw iddi gyda'u cynigion eu hunain ar gyfer diwygio'r gyfraith. Yng Nghymru, nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol bwer dros ddeddfwriaeth sylfaenol a mater i lywodraeth y DU yw diwygio'r gyfraith. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dangos yn glir ei bod yn cefnogi'r achos dros ddiwygio'r gyfraith, ac mewn meysydd lle mae ganddi'r grym angenrheidiol, mae wedi rhoi arweiniad clir i anghyfreithloni cosb gorfforol i blant. Ym mis Mawrth 2002, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad ar Reoliadau sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon i warchodwyr plant yng Nghymru daro, ysgwyd neu fychanu plant. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, lle caniateir i warchodwyr daro plant yn eu gofal gyda chaniatâd rhieni'r plentyn. Ym mis Hydref 2002, gwnaeth

Gweinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad yn mynegi cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i ddiwygio'r gyfraith i wahardd cosb gorfforol mewn teuluoedd. Datganodd y Gweinidog ei bwriad i ysgrifennu at y Gweinidog cyfrifol yn San Steffan yn mynegi barn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gweithredu i hyrwyddo a chefnogi dulliau cadarnhaol o fagu plant yng Nghymru.

> "*Yr allwedd yw cefnogi rhieni ac eraill sy'n gofalu am blant a hyrwyddo perthynas gadarnhaol mewn teuluoedd. Rhaid inni geisio newid agweddau cymdeithas fel na fydd cosb gorfforol i blant yn cael ei gweld yn dderbyniol mwyach, beth bynnag fo'r cyd-destun.*"

Ymrwymodd y byddai Llywodraeth Cymru'n archwilio pob maes polisi i weld sut y gellid hyrwyddo dulliau cadarnhaol o fagu plant drwy addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion, drwy ei gwaith ar Drais yn y Cartref ac wrth ddatblygu Cod Rhieni i Gymru:

"Bydd y Cod, er nad yw'n seiliedig mewn deddfwriaeth, yn cynnig arweiniad ar amrediad o faterion ynghylch dulliau cadarnhaol o fagu plant a pherthynas teuluoedd. Un o'r ffyrdd allweddol y gall y llywodraeth helpu i sicrhau newid cymdeithasol yw drwy bennu disgwyliadau a fydd wedyn yn siapio ymddygiad. Bydd ein Cod yn gymorth yn hynny o beth, hefyd. Yn ogystal â darparu cyngor a chymorth, bydd yn ymgorffori set o ddisgwyliadau ynghylch y ffordd y trinnir plant, gan gyfrannu'n ymarferol at y newid hinsawdd barn sydd eisoes yn digwydd yma yng Nghymru."

Siaradodd aelodau o bob plaid i gefnogi datganiad y Gweinidog; yn wir, mae dros hanner 60 aelod y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymuno ag ymgyrch a drefnwyd gan griw dan yr enw Does dim curo ar blant! – geilw'r ymgyrch am ddiwygio'r gyfraith i roi'r un warchodaeth i blant ag i oedolion dan y gyfraith ar ymosod, ac am weithredu i hybu disgyblaeth gadarnhaol, ddi-drais.

Yn fwyaf diweddar, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi ymuno â'r ymgyrch dros ddiwygio'r gyfraith. Yn ei adroddiad blynyddol, myfyria'r Comisiynydd ar y negeseuon a glyw plant a phobl ifanc oddi wrth gyfraith sy'n dweud ei bod yn iawn i oedolion eu taro:

> "*Credaf nad yw gwlad sy'n dal i ganiatáu taro babanod, ac sy'n gweld bod ymosodiadau ar bobl ifanc yn dderbyniol, yn wlad lle'r ydym am fynd ymhell iawn mewn partneriaeth â'n hieuenctid. Caiff ymdrechion i sicrhau pobl ifanc ein bod yn eu parchu eu tanseilio'n llwyr gan gyfraith sy'n dweud mai nhw yw'r unig grwp yn ein cymdeithas y gellir eu taro heb ofni cosb.*"

Hyd yma, mae Llywodraeth y DU yn dal i wrthod newid y gyfraith a rhoi gwarchodaeth gydradd i blant dan y ddeddf ar ymosod.

Pa mor gyffredin yw cosb gorfforol i blant

Mae cosbi plant yn gorfforol yn arferiad mwy cyffredin nag a dybia llawer o bobl. Canfu ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Iechyd (Smith, 1995) y cafodd dau o bob tri baban eu taro ym mlwyddyn gyntaf eu hoes; câi hyd at draean o blant dan saith oed eu taro gan eu rhieni fwy nag unwaith yr wythnos; cafodd dros draean o blant gosb ddifrifol dan law eu rhieni ar ryw achlysur; ac roedd un mewn pump wedi'u taro ag erfyn. Casgliad yr astudiaeth hon, a holodd dros 500 o famau plant blwydd, pedair, saith neu unarddeg oed, oedd fod y rhan fwyaf o blant yn profi rhyw ffurf ar gosb gorfforol yn y cartref. Mewn astudiaeth arall holwyd y ddau riant mewn teuluoedd dau riant a gwelwyd fod astudiaethau a holai un rhiant yn unig yn rhoi amcangyfrif difrifol o isel o faint o gosbi corfforol a wneir ar blant (Nobes a Smith, 1997). Dangosodd yr astudiaeth hon fod hanner yr holl blant blwydd a phedair oed a thros draean y plant saith mlwydd oed yn cael eu taro/smacio o leiaf unwaith yr wythnos gan eu rhieni. Roedd mwy nag un mewn pump o famau a thadau wedi rhoi cosbau 'difrifol' i'w plant gydag erfyn (sliper neu lwy bren fel arfer). O'r rhieni a holwyd, dywedodd dros 90% eu bod wedi cosbi'u plant yn gorfforol ar ryw adeg, y mwyafrif llethol ohonynt yn y flwyddyn flaenorol. Canfu astudiaeth arall (Newson a Newson, 1989) fod dau draean o bobl wedi smacio babanod erbyn iddynt gyrraedd blwydd oed, ac erbyn pedair oed roedd difrifoldeb ac amlder y cosbi wedi codi'n serth (roedd mwy na 9 mewn 10 yn smacio o leiaf unwaith bob wythnos). Erbyn i blant gyrraedd saith oed, roedd rhai pobl wedi rhoi'r gorau i gosbi corfforol ond roedd bron i chwarter yn taro plant ag arfau a 53% pellach yn bygwth gwneud hynny.

Cysylltiadau rhwng cosb gorfforol a cham-drin corfforol

Mae'n glir nad yw rhieni sy'n taro'u plant o reidrwydd yn mynd ymlaen i'w cam-drin, ond mae'r NSPCC yn ddiweddar wedi rhedeg ymgyrch i amlygu'r cysylltiadau rhwng cosbi corfforol a cham-drin corfforol gan nodi fod plant a gaiff eu cosbi'n gorfforol yn fwy tebygol o gael eu cam-drin yn gorfforol (Henrikson a Grey, 2001). Mae'r posibilrwydd o symud ymlaen oddi wrth smacio plant i'w taro ag arfau neu roi cosbau difrifol iddynt wedi'i ddangos mewn achosion trist lle bu farw plant, megis marwolaeth Victoria Climbie yn 2000 a Lauren Wright yn 2001. Canfu astudiaeth ddiweddar gan yr NSPCC i amlder cam-drin plant yn y DU (Cawson et al, 2000) fod cam-drin plant yn llawer mwy cyffredin nag a dybiwyd gynt. Roedd bron i chwarter y bobl ifanc 18-24 mlwydd oed a holwyd wedi profi camdriniaeth gorfforol dan law eu rhieni yn ystod eu plentyndod. Fel y noda'r NSPCC, mae'r fframwaith cyfreithiol a moesegol y gweithiwn ynddo i ddiogelu plant yn hynod o ddylanwadol o ran pa mor effeithiol y gallwn fod. Mae'r ffaith nad oes gwaharddiad ar gosb gorfforol yn atal gweithwyr proffesiynol rhag rhoi neges glir fod taro plant a'u brifo yn beth drwg. Mae hefyd yn atal ymyriadau cadarnhaol a chefnogol gan y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd ac eraill, gan gyfrannu at drefn amddiffyn plant sy'n tueddu i weithio'n bennaf ar begwn llawer mwy difrifol camdriniaeth gorfforol. Mae ymchwiliadau i gamdriniaeth plant wedi dangos y modd y mae byw mewn diwylliant lle mae'r gyfraith yn caniatáu taro plant yn debygol o fod yn ffactor arwyddocaol o ran rhwystro dioddefwyr ac aelodau'r cyhoedd rhag adrodd am gamdriniaeth neu weithredu i atal camdriniaeth.

Agweddau tuag at gosb gorfforol

Yn 2002, comisiynodd yr NSPCC bôl piniwn gan MORI i ganfod barn y cyhoedd ar gosb gorfforol i blant a diwygio'r gyfraith. Byddai mwyafrif o bobl yng Nghymru a Lloegr (58%) yn cefnogi diwygio'r gyfraith pe gallent fod yn siwr na châi rhieni eu herlyn am smacio 'dibwys'. Roedd y gefnogaeth i ddiwygio'r gyfraith gryfaf ymysg y cenedlaethau a anwyd wedi'r rhyfel, gyda 60% o rai 16-25 mlwydd oed, 71% o rai 25-34 mlwydd oed a 64% o rai 35-44 mlwydd oed. Roedd merched hefyd yn fwy tebygol o gefnogi diwygio'r gyfraith (63% yn erbyn 53%), ynghyd â gweithwyr clercyddol coler wen (64%) a phobl yn byw mewn teuluoedd gyda dau neu ragor o blant (68%). Credai bron bawb o'r rhai a holwyd (97%) na ddylai rhieni gael rhoi cosb gorfforol i fabanod (hyd at 18 mis).

Dangosodd pôl arall gan MORI ymhlith dros 1500 o rieni â phlant dibynnol fod rhieni a gafodd eu cosbi'n gorfforol eu hunain pan oeddent yn blant yn llawer mwy tebygol o wneud yr un peth gyda'u plant nhw (70%) na'r rhai na chafodd eu cosbi'n gorfforol eu hunain (20%). Dangosodd yr arolwg fod taro plant yn achosi loes i rieni hefyd. Dywedodd dros hanner y rhieni a holwyd eu bod yn cosbi eu plant yn gorfforol, ond er hynny, dywedodd 60% eu bod yn meddwl nad cosb gorfforol oedd y ffordd iawn i ddisgyblu plant. Dywedodd hanner y rhieni a ddywedodd eu bod yn cosbi eu plant yn gorfforol eu bod yn gwneud hynny mewn tymer neu rwystredigaeth, a dywedodd saith o bob deg o rieni a oedd wedi cosbi eu plant yn gorfforol eu bod wedi teimlo'n drist ac wedi ymddiheuro i'r plant wedyn.

Roedd arolwg MORI o 998 o blant wyth i bymtheg oed (Ghate a Daniels, 1997) a gomisiynwyd hefyd gan yr NSPCC, yn cynnwys adran ar agweddau plant ar effeithiolrwydd gwahanol ddulliau disgyblu gan rieni. Credai dros 60% o'r sampl mai eglurhad rhesymol, hynny yw, 'siarad gyda chi ac egluro pam mae beth wnaethoch chi yn ddrwg' oedd fwyaf effeithiol. Dim ond 11% o blant oedd yn credu fod smacio'n ddull effeithiol o sicrhau na fyddai plentyn o'u hoed nhw'n camymddwyn yn y dyfodol.

Un o'r dadleuon mwyaf cyffredin a wneir gan y rheini sy'n amau'r cyfiawnhad dros ddiwygio'r gyfraith yw 'wnaeth smac erioed ddim drwg i mi'. Tan yn gymharol ddiweddar roedd teimlad ei bod yn dderbyniol (neu o leiaf yn anochel) dweud ei bod yn iawn i ddynion daro merched – wedi'r cwbl, eiddo eu gwŷr oedd merched, ond diolch i'r drefn, mae agweddau wedi newid ac mae ymddygiad yn newid o ganlyniad. Dros y byd ceir cydnabyddiaeth gynyddol nad yw trais corfforol yn ffordd effeithiol o ddatrys anghytundebau ac nad yw atgyfnerthu'r neges y 'gall pobl gryf daro pobl wannach' yn sail dda ar gyfer lles a hapusrwydd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r rheiny ohonom na ddioddefodd anaf corfforol parhaus oherwydd inni gael ein taro gan ein rhieni yn ffodus, ond pryd bynnag y caiff plentyn ei smacio mae hynny'n tragwyddoli'r gred fod taro plentyn yn dderbyniol. Mae deddfau presennol yn dal i weld plant fel eiddo eu rhieni yn hytrach nag fel unigolion gyda set lawn o hawliau dynol. Gwarchodir oedolion rhag pob math o ymosodiad corfforol gan gynnwys smacio – pam na allwn ni roi'r un warchodaeth i blant?

Pryder arall yw y bydd diwygio'r gyfraith yn arwain at droi rhieni cariadus yn droseddwyr. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r ymgyrch dros roi terfyn ar gosb gorfforol i blant yn ceisio cosbi a throi'n droseddwr bob rhiant sy'n smacio'u plant. Nod yr ymgyrch yn hytrach yw cael cefnogaeth a chymorth i rieni, a dim ond defnyddio'r gyfraith pan fo pob ymgais i gefnogi ac annog rhieni i beidio â tharo'u plant wedi methu. Hyd yn oed wedyn, cynigir mai dim ond pan fyddai hynny er lles y plentyn y byddid yn erlyn rhieni. Mae angen cael y fframwaith cyfreithiol i roi terfyn ar daro plant. Er enghraifft, ni allai'r ymgyrch i newid agwedd cymdeithas tuag at drais yn y cartref lwyddo heb ddeddfau. Gellir defnyddio'r deddfau hyn, ac fe'u defnyddir, i erlyn, ond eu cryfder mwyaf yw'r neges glir a roddant i gymdeithas fod trais rhwng oedolion yn y cartref yn annerbyniol. Mae angen diwygio'r gyfraith a rhaglen o addysgu'r cyhoedd i roi neges ddiamwys fod taro plant yn beth drwg.

Yr achos dros gasglu sylwadau plant

Mae Achub y Plant yn credu fod gan blant lawer o ddoethineb a chraffter i'w gynnig ym mhob mater o bolisi cyhoeddus sy'n effeithio ar eu bywydau. Awn ati i hyrwyddo hawl plant i gyfranogi ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnynt yn unol ag Erthygl 12 Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rydym yn fwriadol wedi dewis gwrando ar sylwadau a phrofiadau plant iau am ein bod yn gwybod mai nhw sydd fwyaf tebygol o gael eu taro yn y cartref. Cred Achub y Plant ei bod yn hanfodol fod y plant yr effeithir arnynt yn cyfrannu at y ddadl gyhoeddus ar y mater hwn. Fel y dywedasom yn ein cyhoeddiad cynharach o sylwadau a phrofiadau plant yn byw yn Lloegr (Willow a Hyder, 1998) .

> "*Dim ond plant all siarad o brofiad uniongyrchol, cyfoes am gael eu smacio; dim ond y nhw all ddweud wrthym sut deimlad mewn gwirionedd yw cael eich smacio a dim ond y nhw all ddweud wrthym a yw smacio, o safbwynt y plentyn, yn rhan effeithiol o helpu plant i fod yn ddinasyddion gofalgar a chyfrifol, yn awr ac yn y dyfodol.*" *(tud. 19)*

Mae Achub y Plant yn credu hefyd ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth ynghylch sut y mae plant yn gweld cosb gorfforol, sut deimlad yw cael eu smacio – i annog gweithredu yn ein cartrefi a'n cymunedau i leihau trais. Un sylw a wnaeth cydgysylltydd yr ymgyrch Does Dim Curo ar Blant! yng Nghymru yw fod pobl sydd yn erbyn gwahardd smacio weithiau'n newid eu meddwl os cânt y cyfle a'r amser i ystyried y dystiolaeth. Mae sylwadau a phrofiadau plant yn rhan bwysig iawn o'r dystiolaeth honno. Cyn cyhoeddi 'It hurts Inside' yn 1998, nid oedd profiadau a sylwadau plant ar smacio wedi bod yn rhan o'r ddadl. Cyflwynodd y cyhoeddiad hwn sylwadau a phrofiadau 76 o blant oedd yn byw yn Lloegr. Ers hynny, bu Achub y Plant yn canfasio barn plant yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, gan gyhoeddi eu sylwadau. Mae'r adroddiad hwn yn awr yn cyflwyno sylwadau a phrofiadau 77 o blant sy'n byw yng Nghymru, gan sicrhau felly fod lleisiau plant o bob rhan o'r Deyrnas Unedig wedi'u cynrychioli.

Pennod Dau: **Methodoleg**

Wrth ymgynghori yng Nghymru glynwyd yn agos at y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth yn Lloegr (Willow a Hyder, 1998). Cynhaliwyd grwpiau trafod mewn chwe gwahanol ardal o Gymru. Roedd yr ardaloedd a ddewiswyd yn adlewyrchu dalgylchoedd cymdeithasol a diwylliannol amrywiol, yn cynnwys y Gogledd a'r De-orllewin gwledig, ardaloedd dinesig y De, Cymunedau'r Cymoedd, a threfi bychain y Canolbarth a'r Gogledd-ddwyrain. Gwnaethpwyd yr ymgynghori mewn tri chlwb ar ôl ysgol a thair ysgol gynradd. Roedd trefnu'r ymgyngoriadau yn yr ysgolion yn anoddach nag a ddisgwyliwyd oherwydd rhai pryderon ynglŷn â phwnc y drafodaeth, ond roedd yr ysgolion a gytunodd i gymryd rhan yn frwdfrydig ac yn gefnogol. Croesawyd ein gwahoddiad yn wresog a gweithiodd y staff yn galed mewn cyfnod byr o amser i alluogi'r trafodaethau i ddigwydd.

Dosbarthwyd taflenni gwybodaeth am y prosiect i rieni a gofynnwyd am ganiatâd ysgrifenedig i'w plant gymryd rhan yn y trafodaethau. Mae copi o'r daflen wybodaeth a'r ffurflen ganiatâd wedi'u cynnwys yma fel Atodiad.

Fe wnaeth ychydig o rieni yn un o'r clybiau ar ôl ysgol wrthod caniatâd i'w plant gymryd rhan. Ymdriniwyd yn sensitif â hyn gan drefnwyr y clwb. Hyd y gwyddom ni, ni wrthododd neb o'r rhieni ganiatâd i'w plant gymryd rhan yn y trafodaethau yn yr ysgolion, er y gwyddom fod nifer o rieni wedi gofyn am drafod yr ymgynghoriad gyda'r prifathro neu brifathrawes cyn cytuno i'w plentyn gyfranogi.

Dywedwyd wrth y plant a'r rhieni y byddai negeseuon y plant yn cael eu hadrodd yn ddienw. Gwarantwyd cyfrinachedd, ac eithrio mewn amgylchiadau lle caem wybodaeth a awgrymai fod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin. Mewn achosion o'r fath byddai'n ofynnol i'n hymchwilwyr adrodd eu pryderon i'r rheolwr arweiniol a fyddai'n gweithredu'n briodol yn unol â Pholisi Amddiffyn Plant Achub y Plant. Golygai'r pwnc trafod ein bod yn siarad â phlant ynglŷn â chael eu taro ac, efallai'n anochel, cafwyd achlysuron pryd y bu raid inni ystyried a oedd y taro a ddisgrifiwyd gan blentyn – yn amlwg o'i brofiad ei hun – yn arwydd fod y plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol.

Cymerodd saith deg a saith o blant rhwng 4 a 10 mlwydd oed ran yn y trafodaethau grwp. Roedd tri deg wyth (49%) o'r plant yn fechgyn a 39 (51%) yn enethod. Dangosir yr amrediad oedran yn y tabl isod.

Tabl: Oed y Plant

Oed	4	5	6	7	8	9	10	Cyfanswm
Bechgyn	3	5	12	7	8	3	-	38
Genethod	-	4	9	13	9	2	2	39
Cyfanswm	3	9	21	20	17	5	2	77

Cafwyd trafodaethau grwp gyda phlant o wahanol oedrannau ond ni cheisiwyd grwpio plant yn ôl oed. Penderfyniad ymarferol oedd hwn gennym, ond weithiau roedd yr amrediad oed yn y grwpiau'n ei gwneud hi'n anoddach cael sylwadau plant unigol. Mewn rhai achosion, byddai aelodau iau'r grwpiau trafod yn ymateb o'r newydd, wrth i themâu newydd gael eu cyflwyno gan aelodau hŷn y grwp. Ar brydiau gellid tystio fod y prosesau gwybyddol ar waith wrth i'r plant feddwl yn galed am eu hatebion a gwrando'n astud ar sylwadau eu cyfoedion.

Eglurwyd pwrpas yr ymarfer ymgynghori i'r plant a rhoddwyd y cyfle iddynt ddewis peidio â chymryd rhan cyn dechrau'r drafodaeth.

Fe ddefnyddiasom y llyfr stori a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer y prosiect ymgynghori blaenorol yn Lloegr (Willow a Hyder, 1998). Roedd y stori'n cynnwys cymeriad gwyrdd o'r enw Splodge, a ddisgrifid fel creadur arallfydol a oedd eisiau gwybod am fywyd ar y ddaear ac yn enwedig am smacio. Gofynnai Splodge nifer o gwestiynau i'r plant.

Cwestiynau Splodge

- Pwy sy'n gwybod beth yw smac?
- Pam ydych chi'n meddwl fod plant yn cael smac?
- Pwy fydd fel arfer yn smacio plant?
- Ym mhle gaiff plant eu smacio fel arfer?
- Sut deimlad ydi cael eich smacio?
- Sut mae plant yn ymddwyn ar ôl cael eu smacio? Sut mae oedolion yn ymddwyn ar ôl rhoi smac?
- Mae oedolion yn smacio plant ond pam nad yw plant yn smacio oedolion? Mae plant yn smacio'i gilydd ond pam nad yw oedolion yn smacio'i gilydd?
- Pan fyddwch chi'n fawr ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n smacio plant?
- Ydych chi'n nabod unrhyw un sydd ddim yn hoffi smacio? Pwy sy'n meddwl fod smacio'n beth drwg?
- Sut allwn ni arbed plant rhag cael eu smacio?
- Beth ellir ei wneud yn lle smacio?*

**Cwestiwn ychwanegol oedd hwn na chafodd ei ofyn yn benodol yn yr astudiaeth yn Lloegr.*

Dechreuwyd y grwpiau trafod gydag ychydig o gemau i gynhesu. 30-45 munud oedd hyd pob sesiwn. Anogwyd y plant i gyd i ateb pob cwestiwn. Cymerwyd nodiadau gan ddau weithiwr a recordiwyd y drafodaeth ar dâp.

Pennod Tri: **Negeseuon Plant**

Pwy sy'n gwybod beth yw smac?

Gofynnodd Splodge i'r plant beth oedd smac. Diffiniad pob un o'r plant o smac oedd pan fydd rhywun yn eich taro neu'n eich slapio. Ym mhob un o'r trafodaethau grwp, ychwanegodd plant amodau am gryfder yr ergyd neu'r slap.

"*Pan mae rhywun yn hitio chi'n galed galed*" (bachgen 5 oed)

Diffiniodd un o'r plant hŷn smac mewn termau mwy cyffredinol:

"*Pan fydd rhywun yn defnyddio grym trais yn eich erbyn chi ydio*" (geneth 9 oed)

"*Hitio pobol*" (geneth 6 oed)

"*Cicio pobol*" (bachgen 5 oed)

Disgrifiodd rhai plant smac yn ôl ei effaith a'r boen a achosodd:

"*Mae'n brifo chi'n galed*" (bachgen 5 oed)

"*Hitio sy'n llosgi'ch pen-ôl ydio*" (bachgen 9 oed)

Soniodd llawer o blant am smacio gyda sliper neu arf arall:

"*Smac efo slipars*" (geneth 7 oed)

"*Neu mi fedren nhw'ch hitio chi efo rhywbeth arall fel sliper neu esgid*" (geneth 7 oed)

"*Allech chi, fel o'r tu ôl, dach chi'n cael brwsh ac yn rhoi chwip din efo fo*" (geneth 7 oed)

"*Allech chi … pan oedd dad yn grwt bach, wnaeth ei dad e dynnu ei felt a'i glatsio fe*" (bachgen 8 oed)

Soniodd un plentyn am sefyllfa lle gallai rhywun geisio helpu gyda smac:

"*Pan dach chi'n byta rhywbeth gwenwynig, dach chi'n cael smac ar eich cefn i'ch helpu chi*" (bachgen 7 oed)

Dangosodd plant ymhob grwp beth oedd smac drwy daro'u llaw neu eu braich eu hunain.

NEGESEUON ALLWEDDOL

Dywedodd plant mai taro yw smac – yn aml gyda rhyw radd o rym, ac weithiau gan ddefnyddio rhyw fath o erfyn fel sliper. Dywedodd plant wrthym fod smacio'n brifo.

Pam mae plant yn cael smac fel arfer?

Roedd gan blant atebion amrywiol i'r cwestiwn hwn, ond y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros smacio plant oedd am eu bod yn ddrwg neu'n camymddwyn.

"*Achos bod nhw (y plant) yn ddrwg, ddrwg, ddrwg*". (geneth 9 oed)

"*Achos bod nhw'n fechgyn drwg*" (geneth 6 oed)

"*Achos bod nhw wedi gwneud rwbath o'i le, dyna pam maen nhw'n cael smac achos bod nhw wedi gwneud rwbath o'i le.*" (geneth 7 oed)

Disgrifiodd sawl plentyn ymddygiad penodol sy'n ysgogi smac:

"*Achos bod nhw (y plant) yn ddig'wilydd*" (bachgen 8 oed)

"*Achos nad dan nhw ddim yn gwrando ar eu mam, rhieni, Miss neu nain*" (bachgen 5 oed)

"*Am bod nhw wedi bod yn taflu brics at ffenestri*" (geneth 6 oed)

"*Pan mae rhywun yn rhedeg i ffwrdd, ac yn dod 'nôl, wedyn maen nhw'n cael chwip din*" (bachgen 7 oed)

"*Achos bod nhw wedi bod yn weindio'r bobol mewn oed i fyny*" (geneth 8 oed)

"*Os ydan nhw ddim yn gwneud be maen nhw i fod y tro cynta*" (geneth 8 oed)

"*Os ydi'u hagwedd nhw'n rong*" (geneth 8 oed)

"*Pan maen nhw'n bod yn gas wrth eu mam, dad a'u chwaer*" (bachgen 7 oed)

"*Ella bod nhw wedi deud celwydd*" (bachgen 8 oed)

Roedd rhai plant yn meddwl y gall plant gael smac am eu bod nhw'n dreisgar wrth blant eraill:

"*Achos bod nhw'n brifo'i gilydd*" (bachgen 8 oed)

"*Achos bod nhw'n dyrnu pobol*" (bachgen 6 oed)

Dywedodd un plentyn fod plant weithiau'n cael smac pan fydd ar oedolion ofn beth maen nhw wedi bod yn ei wneud:

"*Wel, unwaith welis i'r hogyn 'ma ac oedd o'n cerdded ar sil y ffenest tu allan ac oedd o'n wirioneddol uchel, fyny grisiau oedd o, tu allan i'r ffenast, oedd o tu allan i'r ffenast. A wedyn pan ddaru o, a wedyn ddo'th ei fam o i fyny'r grisiau a dyma fo'n gweld, a dyma hi'n ei weld o ac mi gafodd o smac mawr.*" (geneth 7 oed)

Teimlai un bachgen chwe blwydd oed fod plant weithiau'n cael smac oherwydd "fod yr oedolion ddim yn eu hoffi nhw." Ychwanegodd dau o'r plant hŷn hefyd eu bod yn meddwl fod plant yn cael eu smacio am fod oedolion yn hoffi taro plant.

NEGESEUON ALLWEDDOL

Dywedodd plant y caiff plant smac am fod yn ddrwg. Ymhlith enghreifftiau o ymddygiad drwg a arweiniodd at smac roedd peidio â gwrando, bod yn ddigywilydd, rhedeg i ffwrdd a dweud celwydd. Roedd rhai plant yn meddwl fod plant yn cael smac am eu bod yn ymddwyn yn dreisgar at blant eraill. Siaradodd plant ymhob grwp am oedolion yn smacio plant, doedd dim cyfeiriad at blant yn smacio plant eraill.

Pwy sydd fel arfer yn smacio plant?

Soniodd yr holl blant a atebodd y cwestiwn hwn am rieni a pherthnasau. Cytunodd pawb mewn un grwp mai rhieni sy'n smacio plant. Ychwanegodd un plentyn yn y grwp hwn 'bobol ddiarth'. Dywedodd grwp arall mai rhieni, nanis neu famau a thadau fyddai'n gwneud. Rhestrodd trydydd grwp llai (yn eu trefn) dadau, mamau, teidiau, brodyr mawr, ewythrod. Ar y pwynt yma ychwanegodd bachgen wyth mlwydd oed:

"*Pobol mewn oed yn eich teulu, dim ond y dynion a deud y gwir*"

Nodiodd gweddill y grwp i gytuno, ac ychwanegodd bachgen wyth oed arall:

"*a gwragedd*"

Yn gyffredinol, teimlai plant mai aelodau o'r teulu sy'n smacio plant, a rhoddodd rhai plant restrau hir o amryw aelodau'r teulu a allai eu smacio. Fodd bynnag, nododd rhai plant bobl sy'n smacio plant mewn termau mwy cyffredinol:

"*Pobol ddrwg*" (geneth 6 oed)

"*Dynion drwg, drwg*" (geneth 6 oed)

"*Eich gelynion gwaethaf*" (geneth 8 oed)

"*Bwlis*" (bachgen 8 oed)

"*Pobol mewn oed*" (bachgen 7 oed)

NEGESEUON ALLWEDDOL

Dywed y grwp hwn o blant mai rhieni a pherthnasau eraill sy'n smacio plant. Cafwyd rhestrau o'r trafodaethau grwp ac roedd yn anodd barnu a oedd yr holl oedolion a grybwyllwyd yn smacio plant. Gallai rhai oedolion fod wedi'u rhestru am eu bod yn cael eu gweld fel ffigyrau awdurdod i'r plentyn.

Mynegodd rhai plant y farn fod perthnasau gwrywaidd yn fwy tebygol o smacio plant na mamau a neiniau.

Dywedodd rhai plant hefyd fod pobl sy'n smacio yn bobl 'ddrwg' neu 'gas' yn gyffredinol, neu'n fwlis.

Ym mhle gaiff plant eu smacio fel arfer?

Cyfeiriai'r cwestiwn hwn at ble ar y corff y caiff plant smac a hefyd ym mha lefydd neu leoliadau y câi plant eu smacio. Roedd ymateb cyntaf y plant a gymerai ran yn ein grwpiau trafod yn ddieithriad yn ymwneud â lle, sy'n awgrymu fod y lleoliad yn arwyddocaol i blant.

Y lleoliad mwyaf cyffredin a nodwyd gan y plant oedd y tŷ neu ryw ran ohono. Nododd rhai plant ystafelloedd penodol – yr ystafell wely, y gegin, y toiled neu rannau arbennig o'r tŷ – y llofft. Roedd y plant yn ymwybodol o'r teimlad fod smacio'n digwydd fynychaf y tu ôl i 'ddrysau caeedig' lle na allai neb arall weld. Dywedodd un eneth naw mlwydd oed fod smacio'n digwydd:

"*rhywle lle all neb weld – maen nhw'n gwybod ei fod o'n ddrwg*"

Soniodd ychydig o blant am lefydd mwy cyhoeddus – y parc neu'r ysgol. Enwyd y lleoliad diwethaf gan ddau blentyn wrth sôn am blant yn smacio plant eraill. Hyd yn oed mewn llefydd mwy cyhoeddus, tanlinellwyd yr angen am 'breifatrwydd' i smacio plant gan un bachgen pum mlwydd oed a ddywedodd 'yn y parc' cyn ychwanegu 'tu ôl i'r coed'. Roedd plant yn aml yn glir iawn fod oedolion yn bwriadu cadw'r smac yn gyfrinach:

"*Ella rywle ar ben eu hunain. Wrth y llyn, wrth y siop, ar ben eu hunain wrth yr orsaf reilffordd a 'dan nhw'm yn gwybod a does neb yn edrych*"
(geneth 6 oed)

"*Rhywle mae dy fam yn mynd â ti lle fedrith neb weld*" (geneth 8 oed)

Serch hynny, fe awgrymodd un plentyn y gallai fod yn bwysig dewis lle cyhoeddus ar gyfer smacio:

"*Yn yr ardd i ddangos i bawb arall fod ti'n hogan neu hogyn drwg*" (geneth 6 oed)

Cafodd rhai plant drafodaeth ynghylch lle y byddai'n well ganddynt gael smac:

"*Gartre fasa'n well gen i – yn lle cael codi c'wilydd arna'i*" (bachgen 8 oed)

"*Gartref, achos faswn i'n cael embaras mawr tase pobol yn 'y ngweld i*" (geneth 7 oed)

Soniodd sawl plentyn hefyd y gallai oedolyn dynnu trywsus a/neu drôns plentyn i lawr cyn smacio, gan ychwanegu cywilydd at boen y smac.

Y lle mwyaf cyffredin ar y corff i'w smacio oedd y pen-ôl. Soniwyd am hyn gan y rhan fwyaf o blant. Dywedodd plant hefyd eu bod yn cael smac ar y goes a'r llaw. Dywedodd rhai plant fod plant fel arfer yn cael smac ar yr wyneb, neu ran ohono. Rhannau eraill o'r corff a grybwyllwyd gan y plant oedd dwylo, coesau, bol, breichiau, trwyn, cefn y pen, cefn.

NEGESEUON ALLWEDDOL

Dywedodd y plant y buom ni'n gwrando arnynt fod smacio fel arfer yn digwydd yn y tŷ lle na allai neb weld. Dywedodd plant eu bod yn teimlo embaras a chywilydd os caent smac mewn man cyhoeddus – gwyddent nad oedd ar oedolion eisiau i neb eu gweld yn eu taro. Y lle mwyaf cyffredinol ar y corff i gael smac oedd y pen-ôl, er i blant grybwyll sawl rhan arall o'r corff lle gallent gael smac.

Sut deimlad ydi cael smac?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, disgrifiodd plant y boen gorfforol ac emosiynol a ddeuai yn sgîl smac. Yn gyffredinol, câi bechgyn hi'n anoddach siarad am y boen emosiynol.

Siaradodd llawer o blant am gymaint yr oedd smacio'n brifo'n gorfforol. Disgrifiodd plant amrediad eang o deimladau corfforol mewn ymateb i gael smac:

"*Mae'n gwneud ichi deimlo'n drist*" (geneth 8 oed)

"*Mae'n llosgi'ch pen-ôl*" (bachgen 5 oed)

"*Mae'n ofnadwy…….poenus*" (geneth 9 oed)

"*Os dach chi'n cael smac mae o wir yn rhoi cur pen ichi pan fyddan nhw'n gweiddi ac yn eich smacio chi*" (bachgen 5 oed)

"*Ma'n brifo – lle mae'n hitio*" (bachgen 8 oed)

"*Ma'n galed – ddim yn neis*" (bachgen 4 oed)

"*Llosgi'ch pen-ôl*" (bachgen 6 oed)

"*Llosgi fel dalan poethion a gwneud ichi deimlo'n drist*" (geneth 6 oed)

"*Teimlo fel tasach chi wedi'ch pigo gan wenyn*" (geneth 6 oed)

"*Ar ôl i bobol smacio chi, mae gennoch chi ôl coch*" (geneth 6 oed)

"*Poen*" (geneth 6 oed)

"*[Teimlo fel bod] chi'n mynd i farw*" (geneth 6 oed)

"*Teimlo'n sâl*" (bachgen 6 oed)

"*Fel taswn i am lewygu*" (geneth 6 oed)

"*Mae'n rhoi marc mawr coch ichi ac yn llosgi dipyn*" (geneth 7 oed)

"*Mae'n teimlo fel bo' chi'n mynd i grio achos ma'n brifo cymaint*" (bachgen 7 oed)

"*Mae'n teimlo fel eich bod chi'n mynd i grio os oes gennoch chi rywun efo dipyn o fysls yn eu breichiau*" (geneth 8 oed)

Dywedodd llawer o'r plant wrthym fod cael smac yn gwneud i blant deimlo'n drist, neu'n gwneud iddynt grio. Dyma ymatebion emosiynol eraill i smacio y soniodd y plant amdanynt:

"*Mae'n teimlo'n annheg*" (geneth 7 oed)

"*Gneud chi'n flin*" (geneth 6 oed)

"*Mae'n teimlo'n wael ac mae'n ddrwg*" (bachgen 5 oed)

"*Ypsetio*" (bachgen 7 oed)

"*Blin*" (bachgen 7 oed)

"*Mae tu mewn eich corff yn brifo*" (geneth 6 oed)

Dywedodd plentyn arall wrthym sut nad yw cael smac, weithiau, ddim yn ei frifo'n rhy ddrwg, ond ei fod yn cymryd arno ei fod:

"*Os ga'i smac a 'mod i ddim yn crio, mi fydd dad yn edrych arna'i i weld ydwi'n crio, ac mae'n rhoid un arall imi os nad ydwi'n crio, felly dwi'n gorfod smalio crio*" (bachgen 8 oed)

Dywedodd un plentyn wrthym mai diben smacio yw:

"*Gwneud i'r person roddodd smac ichi deimlo'n well*" (geneth 7 oed)

Dywedodd plentyn arall stori wrthym sy'n dangos sut y gall smacio fynd o chwith:

"*Gefais i smac unwaith o'r blaen achos o'n i'n bod yn ddrwg ac yn chwarae'n wirion a pan ro'th mam smac i mi dyma fi'n syrthio'n ôl, iawn, ac yn rhoi clec i 'mhen ar bolyn y gwely bync a wnes i gwympo ar fy ngwely a dechrau crio.*" (bachgen 7 oed)

NEGESEUON ALLWEDDOL

Soniodd plant am effaith gorfforol ac emosiynol sylweddol cael smac. Mae smacio'n brifo plant yn gorfforol ac yn cael effaith emosiynol. Nid yw'r plant y buom ni'n siarad â nhw'n gweld smacio fel peth 'dibwys' – ac maen nhw'n teimlo effaith smac yn ddwfn.

Sut mae plant yn ymddwyn ar ôl cael smac?

Disgrifiodd plant sut y byddent yn teimlo ar ôl cael smac, yn ogystal â sut y bydd plant yn ymddwyn. Dywedodd pob plentyn a atebodd y cwestiwn hwn fod plant yn crio a/neu y byddent wedi ypsetio/yn drist ar ôl cael smac. Dywedodd pedwar plentyn fod plant yn teimlo'n 'flin'.

Roedd gwahaniaeth barn ymysg y plant ynghylch a yw smacio'n atal plant rhag gwneud y peth drwg eto ac mewn dau o'r grwpiau cafodd y plant ddadl ar y mater.

"*Mae'n debyg fod plant yn ymddwyn yn waeth, achos mi ân' nhw o gwmpas yn ei wneud o i blant eraill ar iard yr ysgol*" (bachgen 9 oed)

"*Os na stopiwch chi, gewch chi smac arall*" (bachgen 5 oed)

Dywedodd tri o blant eu bod yn meddwl fod plant yn 'teimlo'n wirion' – sy'n dynodi y gall smac godi cywilydd ar blentyn.

Dywedodd rhai plant wrthym hefyd am y ffyrdd y mae smacio'n gwneud i blant newid eu hymddygiad:

"*Maen nhw'n dechrau bod yn dda achos dan nhw ddim isio cael smac eto*" (geneth 7 oed)

"*Maen nhw'n tawelu'u hunain drwy fynd i fyny i'w llofft a gwneud rhywbeth i dawelu'u hunain*" (geneth 8 oed)

"*Maen nhw'n mynd i'w llofft ac yn cau'r drws*" (bachgen 8 oed)

"*Maen nhw'n mynd i'r gwely ac yn trio peidio bod mor flinedig ag yr oedden nhw… Maen nhw'n ddrwg pan maen nhw wedi blino*" (geneth 8 oed)

Cymerodd rhai plant mai rhywun diarth oedd yn smacio:

"*Deud wrth Mam*" (geneth 6 oed)

"*Ffonio'r heddlu*" (geneth 6 oed)

Siaradodd plant hefyd am y pethau braf sy'n digwydd ar ôl smac:

"*Sws i Mam a cwtsio*" (geneth 7 oed)

"*Teimlo'n drist, wedyn yn hapus ar ôl dweud sori wrth Mam*" (bachgen 8 oed)

Soniodd pedwar plentyn eu bod yn teimlo'n euog ar ôl cael smac, a dywedodd dau blentyn y bydden nhw'n teimlo'n ddig ar ôl cael smac.

NEGESEUON ALLWEDDOL

Yn fwyaf cyffredin ar ôl smac, bydd plant yn crio ac yn cymryd atynt; ânt neu cânt eu hanfon i dreulio amser ar eu pen eu hun. Roedd rhai plant yn meddwl y byddai smac yn gwneud i'r plentyn ymddwyn yn well, a phlant eraill yn meddwl y gallai smacio wneud i blentyn ymddwyn yn waeth.

Mae smacio'n brifo teimladau plentyn, nid yw bob amser yn atal ymddygiad drwg, gall annog plant i smacio plant eraill a gall gael ei weld fel peth sy'n bychanu plant. Roedd rhai plant yn cofio cymodi gyda'r rhiant oedd wedi'u smacio.

Sut mae oedolion yn ymddwyn ar ôl smacio plant?

Cawsom atebion amrywiol iawn i'r cwestiwn hwn. Roedd y plant fel rheol yn cysylltu cael smac ag oedolion blin neu ddrwg eu tymer:

"*Maen nhw'n gwylltio ac yn edrych yn flin*" (bachgen 4 oed)

"*Maen nhw'n stropi a blin*" (bachgen 6 oed)

"*Maen nhw'n deud gair rhegi*" (bachgen 5 oed)

"*Maen nhw'n rhegi o hyd*" (geneth 6 oed)

"*Blin*" (geneth 6 oed)

Disgrifiodd un plentyn y modd y byddai oedolion yn ymddwyn fel "treisgar".

Dywedodd plentyn arall ei bod yn meddwl fod oedolion yn mynd yn flin, ond ychwanegodd "gyda nhw'u hunain". Dywedodd plant eraill y byddai oedolion yn teimlo cywilydd neu'n edifar:

"*Fydde hi wedi cael llond bol arna' i …….wedyn yn ymddiheuro*" (bachgen 9 oed)

"*Maen nhw'n cymryd atynt, yn teimlo'n ddrwg*" (geneth 8 oed)

"*Fedren nhw deimlo cywilydd*" (geneth 7 oed)

"*Allen nhw deimlo fel 'ddylswn i ddim bod wedi gwneud hynna' a'u bod nhw heb fod yn rhiant da*" (bachgen 8 oed)

"*Dwi'n meddwl nad ydan nhw ddim isio i neb weld. Maen nhw'n gwybod fod o'n ddrwg ond maen nhw'n dal i wneud o*" (bachgen 8 oed)

Dywedodd plant wrthym hefyd fod smacio yn gwneud i'r rhieni sy'n gwneud deimlo'n drist hefyd:

"*Maen nhw'n teimlo'n wirioneddol drist*" (bachgen 7 oed)

"*Maen nhw'n llefain*" (geneth 7 oed)

"*Mae rhieni'n teimlo'n euog*" (geneth 6 oed)

"*Falle byddan nhw eisiau ymddiheuro*" (bachgen 6 oed)

Teimlai un plentyn efallai na fyddai rhai oedolion yn edifar o gwbl, a'u bod hyd yn oed yn mwynhau smacio plant:

"*Weithiau os ydyn nhw'n bod yn reit gas, fedren nhw jyst gerdded i ffwrdd fel'na… yn gwenu*" (geneth 7 oed)

NEGESEUON ALLWEDDOL

Roedd y plant y gwrandawsom ni arnynt yn cysylltu smacio â rhieni blin. Dywedodd rhai o'r plant hŷn fod oedolion yn teimlo'n edifar wedi iddynt smacio plentyn.

Pam nad yw plant yn smacio oedolion?

Yr ateb amlaf i'r cwestiwn pam nad yw plant yn smacio oedolion oedd fod ar blant ofn a'u bod yn ofni y telid y pwyth mewn modd mwy difrifol weithiau:

"*Achos mae pobol mewn oed yn fwy ac maen nhw'n eich slapio chi'n ôl yn galetach fyth*" (bachgen 8 oed)

"*Achos mi allai pobol fawr droi'n ôl a defnyddio mwy o rym*" (bachgen 9 oed)

"*Gawn nhw gweir*" (geneth 6 oed)

"*Gawn nhw'u cadw i mewn am wythnos*" (bachgen 5 oed)

"*Achos mi wnawn nhw ddeud y drefn*" (geneth 9 oed)

"*Achos gawn ni'r un peth eto [smac arall]*" (bachgen 7 oed)

"*Os smaciwch chi nhw fydd o ddim mor galed ag maen nhw'n eich smacio chi*" (bachgen 8 oed)

"*Os smaciwch chi nhw fydd o ddim yn galed, ond pan smacian nhw chi fydd o'n galetach fyth*" (bachgen 7 oed)

"*Gallai'r plant fod â gormod o ofn [i smacio oedolion] ac ella na fasa fo ddim yn brifo'r oedolion*" (geneth 7 oed)

Cyfeiriodd nifer o blant at faint a chryfder corfforol cymharol oedolion a phlant:

"*Mae oedolion yn gryfach*" (bachgen 8 oed)

"*Mae plant yn fach*" (geneth 6 oed)

"*Mae plant yn fach, fach*" (geneth 9 oed)

"*Achos mae oedolion yn fwy ac mae plant yn llai*" (geneth 6 oed)

"*Achos Mam ydi'r bòs ar ei phlant, mae hi'n fwy*" (geneth 7 oed)

Dim ond dau blentyn ddywedodd eu bod yn meddwl na fyddai plant yn smacio oedolion am ei fod yn ddrwg.

"*Dyn nhw ddim wir eisiau'u smacio nhw – maen nhw'n gwybod ei fod yn ddrwg*" (bachgen 9 oed)

Dywedodd un plentyn nad yw plant yn smacio oedolion oherwydd nad yw oedolion ddim yn gwneud dim byd drwg, ac roedd un arall yn meddwl ei bod yn erbyn y gyfraith i blant smacio oedolion:

"*Achos dan nhw ddim isio cael eu harestio*" (bachgen 5 oed)

Roedd un plentyn yn teimlo pe bai plant yn smacio oedolion y byddai pethau'n debygol o fynd dros ben llestri:

"*Mi allai plant golli rheolaeth a dechrau smacio pobol eraill*" (geneth 7 oed)

Yn y trafodaethau grwp i gyd, roedd yno blant a ymddangosai wedi'u synnu gan y cwestiwn hwn ac roedd llawer ohonynt yn amlwg yn gorfod meddwl cyn ateb.

NEGESEUON ALLWEDDOL

Nid yw plant yn smacio oedolion am fod arnynt ofn cael smac yn ôl. Mae plant yn deall fod maint a chryfder corfforol cymharol yn ffactor pwysig sy'n pennu pwy sy'n smacio pwy.

Pam nad yw oedolion yn smacio'i gilydd?

Mae oedolion yn amlwg yn taro oedolion ac roedd y cwestiwn yma wedi'i gynnwys i ganfod beth yw dealltwriaeth a barn plant am y modd y bydd oedolion yn delio â dicter a rhwystredigaeth rhyngddynt a'i gilydd ac i glywed sylwadau plant ar y ffaith mai prin iawn y defnyddir y term smacio i gyfeirio at drais rhwng oedolion. Y prif ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd fod oedolion yn gwybod yn well; eu bod yn hoffi'u gilydd; neu nad oedd arnyn nhw eisiau dechrau rhywbeth a allai fynd dros ben llestri.

"*Am fod ganddyn nhw fanars*" (geneth 5 oed)

"*Achos eu bod nhw'n gwybod ei fod o'n ddrwg*" (geneth 6 oed)

"*Dydi pobol fawr ddim yn ddrwg*" (geneth 8 oed)

"*Maen nhw'n hoffi oedolion eraill*" (geneth 12 oed)

"*Achos dan nhw ddim isio brifo'u ffrindiau*" (bachgen 9 oed)

"*Os ydi'ch mam a dad wedi priodi a'u bod nhw'n dechrau smacio'i gilydd wedyn mi allen nhw gael ysgariad*" (geneth 8 oed)

"*Achos mi fasai'n rhaid iddyn nhw wneud yn ôl a dan nhw ddim isio i'r person arall daro'n ôl*" (bachgen 9 oed)

"*Achos pan fydd oedolion yn gwneud rhywbeth i'w gilydd, mae'n rhaid i oedolion dalu'n ôl*" (bachgen 5 oed)

"*Achos wedyn mae'n dechrau ffeit a maen nhw'n cwffio a smacio ac wedyn maen nhw'n dechrau ymladd efo'i gilydd*" (bachgen 7 oed)

"*Wel achos ella'u bod nhw mewn tafarn ac mi allen nhw ddechrau malu gwydr achos maen nhw'n dechrau cwffio ac wedyn mi allai'r heddlu ddod a gallai llwythi o bobl gael eu brifo*" (geneth 7 oed)

Mi wnaeth ambell blentyn siarad yn erbyn y rhagdybiaeth yn y cwestiwn nad yw oedolion yn smacio oedolion:

"*Mae rhai'n gwneud*" (geneth 10 oed)

"*Mae oedolion yn hitio oedolion eraill*" (bachgen 5 oed)

Cyfeiriodd ambell blentyn at bethau eraill y gallai oedolion eu gwneud yn lle smacio'i gilydd:

"*Maen nhw'n cweryla fwy na hitio*" (bachgen 6 oed)

Siaradodd rhai plant hefyd am sut y credent y byddai oedolion yn teimlo ynghylch smacio'i gilydd:

"*Dwi'n meddwl ella y basan nhw'n teimlo dipyn o embaras*" (bachgen 8 oed)

"*Fasan nhw'n gallu ypsetio am bod nhw wedi smacio'r person maen nhw'n garu*" (geneth 8 oed)

"*Achos os ydan nhw'n smacio'i gilydd dan nhw ddim yn mynd i fod yn hapus iawn efo nhw'u hunain achos maen nhw'n oedolion rwan, ddim yn blant*" (geneth 8 oed)

Roedd llawer o blant yn meddwl fod oedolion yn rhy 'aeddfed' i smacio'i gilydd:

"*Wel, fel arfer, tasa'ch mam wedi priodi efo'ch tad, fel arfer fasan nhw'n ffraeo yn lle smacio'i gilydd achos mi fasa braidd yn blentynnaidd smacio'ch gilydd pan dach chi'n oedolyn*" (geneth 7 oed)

"*Os ydan nhw'n smacio'i gilydd mi fydd o 'chydig yn blentynnaidd*" (geneth 8 oed)

A dywedodd rhai plant wrthym eu bod yn meddwl y câi oedolion eu labelu am daro'i gilydd, yn enwedig dynion yn taro merched:

"*Weithiau pan dach chi yn yr ysgol mae rhai pobol yn deud os ydi bechgyn yn hitio genod maen nhw'n pwff, felly os ydi'r ddynes yn hitio'r dyn wedyn fedr y dyn ddim hitio'n ôl achos fasan nhw, fasa fo'n pwff*" (geneth 8 oed)

"*Na, fasa nhw'n llipryn*" (bachgen 8 oed)

Dywedodd un plentyn nad yw oedolion yn smacio'i gilydd oherwydd pe baen nhw'n gwneud, mi gaent eu carcharu.

NEGESEUON ALLWEDDOL

Datgelodd y cwestiwn hwn lawer am y ffordd y mae plant yn gweld ymddygiad oedolion a'u perthynas â'i gilydd. Nid oedd y rhan fwyaf o blant yn gweld smacio fel rhywbeth y mae oedolion yn ei wneud i'w gilydd – teimlir fod oedolion yn hoffi ei gilydd; maent yn ymddwyn yn dda tuag at ei gilydd a does arnyn nhw ddim eisiau bod mewn 'ffeit'. Teimlent hefyd y byddai'n edrych yn wirion neu'n blentynnaidd i oedolion smacio'i gilydd.

Pan fyddwch chi'n fawr, fyddwch chi'n smacio plant?

Dywedodd dau o bob tri phlentyn y gwrandawsom ni arnynt na fyddent yn smacio plant pan fydden nhw'n fawr. Rhoddwyd nifer o resymau, yn cynnwys y loes gorfforol ac emosiynol y gallai smac ei achosi:

"*Na, achos mae'n gas*" (bachgen 5 oed)

"*Achos mae'n brifo*" (bachgen 8 oed)

"*Dan ni'n gwybod sut mae'n teimlo*" (geneth 8 oed)

"*Na, achos dach chi wedi'i brofi o*" (bachgen 9 oed)

"*Na. Achos wna'i deimlo'n drist a wnawn nhw deimlo'n drist*" (bachgen 6 oed)

"*Na. Mi fasa'n ofnadwy hitio plant*" (geneth 6 oed)

"*Wna i ddim hitio plant pan fydda i'n Dad achos mae tadau'n rhoi da-da ichi*" (bachgen 6 oed)

"*Mi allai eu brifo nhw a dydi hi ddim yn neis iawn brifo pobl*" (geneth 8 oed)

"*Achos mae'n brifo lot ac mi fasech chi'n gallu'u hel nhw i'w llofft yn lle*" (bachgen 7 oed)

"*Achos os ydach chi'n smacio nhw, neith o frifo nhw, eu teimladau nhw a 'ballu*" (bachgen 7 oed)

"*Achos mi fydd plant wedi ypsetio a pan fyddan ni'n fawr fyddan ni'n teimlo'n flin drostyn nhw am bod ni wedi'u smacio nhw, a dwi ddim isio smacio plant pan fydda i wedi tyfu*" (geneth 6 oed)

"*Wna i ddim smacio achos dwi ddim isio'u brifo nhw*" (geneth 7 oed)

"*Wna i ddim smacio fy mhlant, dwi'm yn meddwl fod o mor deg â hynny … A faswn i ddim yn ei lecio fo. Mae isio trin pobol eraill fel y basech chi'n hoffi cael eich trin*" (geneth 8 oed)

Dywedodd un plentyn na fyddai'n smacio'i blant rhag ofn y câi ei anfon i'r carchar:

"*Erbyn hynny mae'n debyg y bydd yn erbyn y gyfraith a tasa rhywun yn dod o hyd i farc ar eich plentyn fasan nhw'n eich carcharu chi amdano fo*" (bachgen 8 oed)

Dywedodd rhai plant wrthym am y dulliau disgyblu eraill y byddent yn eu defnyddio pan fyddai plant yn ddrwg:

"*Allech chi eu cosbi nhw, eu cadw nhw i mewn, [yn lle smacio] ac os bydden nhw'n cymryd y gosb yn dda iawn, wedyn gallech chi adael iddyn nhw fynd allan i chwarae a fyddan nhw ddim dan draed*" (geneth 8 oed)

"*Jyst rhoi rhybudd iddyn nhw os ydan nhw'n torri'r rheolau, os nad ydan nhw'n gwneud beth maen nhw'n ddeud, wedyn eu hanfon nhw i'r gwely*" (geneth 8 oed)

"*Faswn i jyst yn deud wrthyn nhw am fynd i'w stafell wely* " (bachgen 7 oed)

O'r plant hynny a ddywedodd y byddent yn smacio, dywedodd y rhan fwyaf mai dim ond pe bai'r plentyn yn wirioneddol ddrwg y byddent yn gwneud:

"….*dim ond os ydyn nhw'n ddrwg iawn, iawn, iawn*" (geneth 6 oed)

Dyma rai enghreifftiau o ymddygiad a allai haeddu smac:

"…..*malu pethau*" (geneth 8 oed)

"……*bod yn dreisgar*" (geneth 9 oed)

"*Rhegi ar eich mam*" (bachgen 8 oed)

"*Dwyn*" (bachgen 6 oed)

"*Os rhowch chi Ritalin iddyn nhw a'u bod nhw'n dal i'w wneud o, mi fydd raid ichi'u smacio nhw neu wnawn nhw 'mond dal ati i neud pethau o'i le, wnawn nhw jyst ddal i wneud*" (7 bachgen oed)

Roedd rhai plant yn teimlo na fyddai'n iawn weithiau peidio â rhoi rhyw fath o gosb i blant:

"*Os ydan nhw'n wirioneddol ddrwg, dydi hi ddim yn iawn jyst gadael iddyn nhw ddal i wneud be maen nhw'n ei wneud*" (7 geneth oed)

"*Dwi'n meddwl fod raid i chi smacio achos os na wnewch chi fydd eich tŷ chi'n rhacs*" (8 geneth oed)

"*Achos os ydyn nhw wedi bod yn wirioneddol ddrwg fedrwch chi ddim eu hanfon nhw i'w stafell wely achos allen nhw jyst fod yn ddrwg eto*" (8 geneth oed)

Dywedodd un plentyn wrthym pe bai yn smacio plant pan fyddai wedi tyfu, doedd arno ddim eisiau gwneud hynny'n galed:

"*Wel, mae gen i rywbeth i'w ddeud, taswn i'n smacio plant, wedyn faswn i ddim yn ei wneud yn rhy galed, dim ond eu tapio nhw*" (8 geneth oed)

Efallai fod yr atebion i'r cwestiwn hwn a'r ddau nesaf wedi dangos tuedd o ran fod rhai o'r plant hwyrach wedi ymateb drwy ddweud yr hyn y tybient y byddai'r ymchwilwyr am ei glywed. Ni chyflwynodd yr ymchwilwyr eu hunain fel pobl 'yn erbyn smacio' ond roedd pwrpas yr ymgynghori, fel y'i heglurwyd i blant a rhieni, ynghyd â'r ffaith ein bod eisiau gwrando ar farn plant ifanc ar y mater, yn awgrymu safle o blaid diwygio. Deellid hyn yn well gan y plant hŷn.

NEGESEUON ALLWEDDOL

Dywedodd dau draean o'r plant na fyddent yn smacio plant pan fyddent wedi tyfu'n fawr. Am y rhai a ddywedodd y byddant yn smacio plant pan fyddant yn fawr, dim ond os byddai'r plentyn yn ymddwyn yn wirioneddol ddrwg y gwnaent hynny, roedd enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys rhegi ar riant neu fod yn dreisgar neu allan o reolaeth. Er y teimlai rhai plant fod angen rhyw ffurf ar gosb, cawsant anhawster meddwl am ddulliau eraill yn lle smacio.

Ydych chi'n nabod unrhyw un sydd ddim yn hoffi smacio?

Ym mhob un o'r grwpiau dywedodd plant nad oedden nhw'n hoffi smacio a rhestrwyd oedolion a ffrindiau yr oedd y plant yn meddwl nad oeddent yn hoffi smacio.

Rhestrodd y rhan fwyaf o blant eu mamau a/neu eu tadau yn eu rhestrau o aelodau'r teulu nad oedd yn hoffi smacio, hyd yn oed os oeddent eisoes wedi dweud wrthym fod eu mamau neu eu tadau wedi eu smacio.

"*Dwi'n ei gasáu o achos mae'n gwneud i mhen-ôl i frifo*" (bachgen 5 oed)

"*Dwi'n nabod llwythi o bobol mewn oed sydd ddim yn hoffi smacio*" (bachgen 9 oed)

"*Fy nheulu*"

"*Fy nghefndryd*" (geneth 8 oed)

"*Dydi fy ffrind ddim yn ei leicio fo achos mi gafodd hi ei tharo efo ffon fawr.*" (geneth 9 oed)

NEGESEUON ALLWEDDOL

Roedd y plant y buom ni'n gwrando arnynt i gyd yn adnabod oedolion nad oedd yn hoffi smacio. Roedd rhai yn adnabod ffrindiau nad oedd yn hoffi smacio hefyd.

Pwy sy'n meddwl fod smacio'n ddrwg?

Dywedodd pob plentyn ond tri eu bod yn meddwl fod smacio'n ddrwg, er bod rhai plant yn fwy llafar nag eraill. Ymhlith y rhesymau a roddwyd roedd: colli rheolaeth, y boen a achosir, cosbi plentyn ar gam am rywbeth na wnaethant ac mai peth 'drwg' yw smacio.

"*Achos, dio ddim yn iawn achos os gwnewch chi, mi allech chi… … os cewch chi smac mi allech chi ddechrau gwylltio mwy ac wedyn mi gewch chi smac arall ac mi allai gario 'mlaen*" (geneth 7 oed)

"*Wel, os mai oedolyn oedd yn smacio mi allen nhw feddwl fod smacio'n ddrwg achos mi allen nhw frifo calon y plentyn, mi allen nhw dorri calon y plentyn*" (geneth 7 oed)

"*O ie 'chos pan ma nhw'n gneud rwbath, fasach chi'n gallu meddwl bod nhw wedi gneud rwbeth ond ddim nhw wnaeth a fasach chi'n gallu rhoi smac iddyn nhw*" (geneth 7 oed)

Yn ôl y plant a oedd yn meddwl ei bod yn iawn smacio, roedd angen cosbi weithiau. Pan ofynnwyd ym mha amgylchiadau, rhestrodd y plant ymddygiad a fyddai'n cyfiawnhau smac:

"*am regi*" (bachgen 6 oed)

"*tynnu llun ar y ffenestri a'r waliau*" (bachgen 5 oed)

"*torri teganau newydd a ffenestri*" (geneth 6 oed)

NEGESEUON ALLWEDDOL

Roedd mwyafrif llethol y plant a gymerodd ran o'r farn fod smacio yn ddrwg.

Sut allwn ni arbed plant rhag cael eu smacio?

Ysgogodd y cwestiwn hwn ymatebion a dadlau bywiog ym mhob grwp trafod. Cynigiwyd sawl awgrym gan y plant. Un oedd y dylai plant ymddwyn yn dda:

"*Plant yn bod yn dda*" (bachgen 5 oed)

"*Plant yn bihafio*" (geneth 6 oed)

Roedd gan blant lawer o awgrymiadau sut i ddarbwyllo oedolion i beidio â smacio plant:

"*Eu perswadio nhw i beidio gwneud -…. crefu ac erfyn*" (bachgen 8 oed)

"*Ei roi o yn y papurau i gyd/ar y teledu/posteri….(posteri i ddeud) PEIDIWCH â smacio*" (bachgen 8 oed)

"*Wel mae rhaid ichi ddeud wrthyn nhw, plis stopiwch smacio'ch plant*" (bachgen 7 oed)

"*Mi allech chi ddeud wrthyn nhw, wnewch chi stopio'n smacio i a rhoi cosb wahanol imi*" (geneth 7 oed)

Roedd rhai plant eisiau dod ag oedolion eraill i mewn ac roedd rhai plant hŷn yn meddwl y dylid defnyddio grym y gyfraith:

"*Drwy roi deddf i mewn ac mi fasa plant yn gallu deud wrth eu hathrawes ac wedyn deud wrth yr heddlu*" (bachgen 9 oed)

"Drwy roi camerâu i mewn" (bachgen 8 oed)

"*Gweithredu deddf lle os oes unrhyw un yn gweld plentyn yn cael smac, unrhyw blentyn yn deud ei fod wedi cael smac, bydd y person maen nhw wedi dweud wrtho'n mynd at yr heddlu ac wedyn ân' nhw â fo i'r llys*" (bachgen 9 oed)

"*Deud wrth yr athrawes*" (bachgen 5 oed)

"*Dwi'n meddwl y dylen ni wneud deddf i stopio oedolion smacio plant* " (geneth 7 oed)

"*Fasa raid ichi wneud o'n gyfraith dim mwy o smacio*" (geneth 8 oed)

"*Cosbi oedolion os ydan nhw'n smacio chi*" (bachgen 8 oed)

Roedd awgrymiadau eraill ynghylch cael rhieni i annog plant i wneud rhywbeth gwahanol a/neu ddefnyddio cosbau neu ddisgyblaeth fwy effeithiol:

"*Gwneud rhywbeth arall sy'n gweithio orau….. fel colli 'mhres poced, dydi cael eich smacio ddim yn eich stopio chi wneud o eto*" (bachgen 8 oed)

"*Allech chi fynd allan a prynu llwythi a llwythi o lyfrau ac wedyn aros yn eich llofft o hyd a darllen y llyfrau i gyd*" (geneth 7 oed)

"*I stopio rhegi (yn lle smacio) rhoi sebon, mwstard neu sebon golchi llestri yn eich ceg*" (geneth 6 oed)

Awgrymodd un plentyn y byddai annog rhieni i wobrwyo ymddygiad da yn helpu i roi terfyn ar smacio plant:

"*Os ydyn nhw'n dda rhowch fferins iddyn nhw*" (geneth 8 oed)

Rhoddodd rhai plant awgrymiadau ynghylch beth i'w wneud i atal plant rhag smacio plant eraill:

"*Os ydach chi'n cael eich bwlio ddylech chi ddeud wrth rywun*" (geneth 6 oed)

"*Gweiddi arnyn nhw, wedyn gweiddi am eich mam*" (bachgen 8 oed)

Roedd un plentyn eisiau troi'r fantol yn erbyn yr oedolion:

"*Hawdd, eu cloi nhwthau yn eu stafelloedd neu eu cadw nhw yn y tŷ fel eu bod nhw'n methu mynd i siopa*" (geneth 8 oed)

NEGESEUON ALLWEDDOL

Roedd amrywiaeth barn ymysg y plant ynghylch ai plant ynteu oedolion a ddylai fod yn darged diwygio, ond roedd rhai plant yn amlwg yn derbyn fod gan blant y prif gyfrifoldeb dros atal smacio. Roedd rhai plant eisiau ceisio perswadio oedolion i roi'r gorau i smacio, gan ddefnyddio cyfryngau cyfarwydd. Roedd eraill eisiau annog defnyddio strategaethau disgyblu gwahanol. Credai rhai o'r plant hŷn mai proses gyfreithiol fyddai'r gorau efallai.

Beth ellir ei wneud yn lle smacio?

Cafwyd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn rhestru amrediad o sancsiynau y teimlai'r plant y byddent yn well ac yn fwy effeithiol ar gyfer delio ag ymddygiad drwg. Arweiniodd y trafodaethau grwp yn anochel at awgrymiadau cosb mwyfwy llym gan y plant. Yn un grwp penllanw'r drafodaeth oedd y sylw hwn gan eneth 9 oed:

"*Oedd yr hogyn 'ma'n wirioneddol ddrwg; chafodd o ddim mynd allan am ddwy flynedd a chafodd o ddim pres poced am bum mlynedd*".

Mewn grwp arall, dywedodd geneth 5 oed: "*dim pres poced am gan mlynedd*".

Doedd y rhan fwyaf o awgrymiadau ddim lawn mor ddidrugaredd! Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin oedd cael eich hel i'ch ystafell; peidio cael mynd allan; ac atal arian poced.

Roedd gan rai o'r plant hŷn awgrymiadau mwy cynnil:

"*Eu stopio nhw rhag gwneud pethau maen nhw'n hoffi…….gwylio'u hoff raglen deledu neu chwarae eu hoff gêm*" (bachgen 9 oed)

"*Peidio â gadael iddyn nhw fynd ar dripiau sy'n hwyl*" (geneth 8 oed)

"*Jyst gweiddi arnyn nhw [yn lle smacio]*" (geneth 6 oed)

"*Allech chi eu cosbi nhw, peidio â gadael iddyn nhw fynd allan, yn lle smacio ac os bydden nhw'n cymryd y gosb yn dda iawn, wedyn gallech chi adael iddyn nhw fynd allan i chwarae a fyddan nhw ddim dan draed* " (geneth 8 oed)

"*Jyst rhoi rhybudd iddyn nhw os ydan nhw'n torri'r rheolau, os nad ydan nhw'n gwneud beth maen nhw'n ddeud wedyn, eu hanfon nhw i'r gwely*" (bachgen 8 oed)

Awgrymodd un plentyn y gallai cosb addas olygu rhoi tasg i'r plentyn na fyddai'n ei mwynhau:

"*Fel llnau'r bathrwm neu rwbath*" (bachgen 7 oed)

NEGESEUON ALLWEDDOL

Roedd gan y plant y buom ni'n gwrando arnynt lawer o syniadau ynghylch pa gosbau a sancsiynau eraill y gellid eu defnyddio (ac a fyddai'n fwy effeithiol yn aml).

Crynodeb: **Plant yn Siarad am Smacio – y Prif Negeseuon**

- Mae plant yn diffinio smacio fel taro; disgrifiodd rhai ohonynt smac fel trawiad caled;
- Mae plant yn meddwl y cânt eu smacio am eu bod wedi camymddwyn neu fod yn blant drwg;
- Dywedodd plant mai rhieni a pherthnasau eraill oedd fwyaf tebygol o smacio plant. Roedd rhai plant (y bechgyn i gyd) yn meddwl ei bod yn fwy tebygol mai perthnasau gwrywaidd fyddai'n smacio plant;
- Dywedodd plant fod smacio fel arfer yn digwydd yn y tŷ, mewn mannau lle na all neb weld.
- Dywedodd plant fod smacio'n brifo'n gorfforol ac yn emosiynol;
- Mae smacio'n brifo teimladau plentyn; nid yw plant yn meddwl ei fod bob amser yn atal ymddygiad drwg ac maent yn meddwl y gall annog plant i smacio plant eraill ac y gall gael ei weld fel rhywbeth sy'n bychanu plant;
- Roedd plant yn cysylltu smacio â rhieni wedi gwylltio. Roedd rhai o'r plant hŷn yn dweud fod oedolion yn edifarhau ar ôl smacio plentyn;
- Nid yw plant yn smacio oedolion oherwydd bod arnynt ofn cael eu taro'n ôl; maent yn deall arwyddocâd maint a chryfder cymharol. Dywedodd plant nad oedd oedolion yn smacio'i gilydd am eu bod yn gwybod yn well, am eu bod yn hoffi'u gilydd a/neu am nad oedd arnynt eisiau dechrau ymladd;
- Dywedodd dau draean o'r plant a gymerodd ran yn yr ymgynghori na fydden nhw'n smacio plant ar ôl tyfu'n fawr;
- Dywedodd mwyafrif llethol y plant y buom ni'n gwrando arnynt eu bod yn meddwl fod smacio'n beth drwg. Roedd pawb o'r plant yn adnabod oedolion nad oedd yn hoffi smacio;
- Dywedodd plant fod rhaid i blant ac oedolion ill dau newid eu hymddygiad os am roi terfyn ar smacio. Roedd rhai o'r plant hŷn o blaid proses gyfreithiol i warchod plant rhag cael eu smacio;
- Mae gan blant lawer o syniadau am sancsiynau neu gosbau gwahanol a fyddai yn eu barn nhw'n fwy effeithiol na smacio.

Pennod Pedwar: **Ymateb i Blant yn Siarad am Smacio**

Mae profiadau a barn plant ar smacio yn rhoi darlun cryf o effaith smacio neu daro plant. Mae eu disgrifiadau o gosb gorfforol yn dangos yn glir nad yw ambell 'dap' a 'slap' yn ysgafn nac yn ddibwys pan mai chi sy'n eu dioddef. Mae atebion plant i'r cwestiwn 'Sut deimlad yw cael smac?' yn dod â'r ffaith adref yn fyw, os ydych chi'n fach iawn, fod hyd yn oed ergyd 'ysgafn' gan oedolyn – rhywun llawer mwy na chi, yn ddychrynllyd. Yn wir, gair llednais yw smacio am daro plant.

Mae'r negeseuon gan blant yng Nghymru mewn gwirionedd yn debyg iawn i'r negeseuon a gafwyd gan blant yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae taro plant nid yn unig yn achosi poen corfforol i blant ond mae'n cael effaith emosiynol hefyd. Mae plant yn sylweddoli fod smacio'n gysylltiedig â rhieni dig, rhwystredig, ei fod yn aml yn adwaith neu'n arferiad yn hytrach nag yn strategaeth fwriadus ar gyfer delio ag ymddygiad direol a'i fod yn ennyn euogrwydd ac edifeirwch mewn rhieni ar ôl y digwyddiad. O safbwynt y plentyn, nid yw taro plant yn atal ymddygiad drwg a gall eu hannog nhw i daro eraill. Mae plant yn dysgu pan ydych yn delio ag ymddygiad drwg neu bobl yn gwneud pethau nad oes arnoch chi eisiau iddyn nhw eu gwneud – y cewch chi daro pobl, os ydyn nhw'n llai na chi wrth gwrs. Ai dyma'n wir yw'r negeseuon yr ydym eisiau eu rhoi i'n plant?

Roedd sawl awgrym defnyddiol hefyd gan y plant y buom yn gwrando arnynt ynghylch sut y gall rhieni roi'r gorau i smacio. Cynigiasant amrediad o sancsiynau gwahanol diddorol am ymddygiad 'drwg' – awgrymiadau a ddangosai wir fewnweledіad i'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn. Roedd rhai o'r cwestiynau a ofynasom a'r atebion a gawsom gan blant yn dangos mor od yw'r sefyllfa yr ydym ynddi mewn gwirionedd.

Ysgogodd y cwestiwn 'Pam nad yw plant yn taro oedolion?' negeseuon cryf iawn fod plant yn dysgu ynghylch dim ond taro pobl sy'n llai a gwannach na nhw. Pan ofynasom i blant 'Pam y caiff plant eu smacio?' dangosodd yr atebion y caiff rhai plant eu taro am daro plant eraill. Mae'n anodd gweld sut y mae ymateb fel hyn gan rieni i drais eu plant yn erbyn eraill yn helpu eu plant i ddatblygu ffyrdd mwy priodol o ddatrys gwrthdaro. Mae'r ymarferiad ymgynghori hwn yn dangos ein bod, wrth barhau i esgusodi taro plant, yn rhoi negeseuon i blant – fod pob ffurf ar drais yn dderbyniol, a'i bod yn iawn taro rhywun os ydych yn fwy, yn gryfach a bod gennych fwy o rym na'r sawl rydych yn ei daro.

Nid ein bwriad, fodd bynnag, yw beirniadu rhieni na'u troi'n droseddwyr. Mae bod yn rhiant yn cario cryn dipyn o gyfrifoldeb ac mae llawer o rieni'n ymlafnio i ddarparu'r gorau i'w plant er gwaethaf pwysau tlodi, cartrefi gwael ac arwahanrwydd. Gall bod yn rhiant fod yn waith caled, llawn straen. Gobaith Achub y Plant yw y defnyddir yr adroddiad hwn a lleisiau'r plant ifainc i hysbysu'r strategaethau a ddatblygir yng Nghymru i gefnogi rhieni a hyrwyddo dulliau di-drais a chadarnhaol o fagu plant.

Ar ben hynny, gobeithiwn y bydd yr adroddiad yn ychwanegu llais arall eto fyth i atgoffa pobl fod cosbi plant yn gorfforol mewn gwirionedd yn ymosodiad sylfaenol ar hawliau dynol plant, yn achosi loes emosiynol yn ogystal â chorfforol i blant ac yn meddu ar y potensial i dyfu i faes cam-drin corfforol. Mae'n aneffeithiol fel modd o ddisgyblu hefyd. Dylai'r ffaith fod plant yn llai, yn iau, yn fwy bregus ac yn gwbl ddibynnol ar oedolion am eu lles, heb lais cryf iddynt eu hunain, os rhywbeth, roi gwarchodaeth gryfach fyth iddynt rhag niwed.

Mae Achub y Plant yn ailadrodd ei alwad am ddiwygio'r gyfraith ar sail egwyddor i roi i blant yr un hawl cyfreithiol i gael eu gwarchod dan y gyfraith ag a gaiff oedolion rhag ymosodiad. Credwn y dylid gwahardd cosb gorfforol i blant ochr yn ochr â rhaglen helaeth a pharhaus o addysg gyhoeddus a chefnogaeth i rieni, gan ganolbwyntio ar fanteision defnyddio disgyblaeth gadarnhaol a di-drais, yn hytrach na chosbol. Gobeithiwn y gall yr adroddiad hwn ein hatgoffa o'r angen i ganfod ffyrdd llawer mwy effeithiol, mwy parchus a llai peryglus o ddysgu plant am ymddygiad derbyniol na modelu ymatebion ymosodol o fewn perthynas.

Cyfeiriadau

Cawson, P. Wattam, C. Brooker, S. Kelly, G. (2000)
Child Maltreatment in the United Kingdom. A Study of the Prevalence of Child Abuse and Neglect. Llundain: NSPCC

Comisiynydd Plant Cymru (2002)
Adroddiad a Chyfrifon 2001-2

Yr Adran Iechyd (2000)
Protecting Children, Supporting Parents

Durrant, J.E. (2000)
A Generation without Smacking: the impact of Sweden's ban on Physical Punishment.
Achub y Plant

Ghate, D. a Daniels, A (1997)
Talking about my Generation.
NSPCC

Henricson, C. a Grey, A. (2001)
Understanding Discipline – a summary.
NFPI

Newson, J. a Newson, E (1989)
The Extent of Parental Physical Punishment in the UK.
APPROACH

Nobes, G a Smith, M (1997)
'Physical punishment of children in two-parent families',
Clinical Child Psychology and Psychiatry, 2,2,271 -281

Achub y Plant (2001)
Ending Corporal Punishment of Children: Making it Happen.

Smith, M.A. (1995)
Community Study of Physical Violence to Children in the Home and Associated Variables.
Poster a gyflwynwyd ym 5ed Cynhadledd Ewropeaidd y Gymdeithas Ryngwladol er Atal Cam-drin ac Esgeuluso Plant.

Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2002)
Sylwadau Cloi ar Adroddiad Cyfnodol Llywodraeth y DU

Willow, C. a Hyder, T. (1998)
It Hurts Inside.
Biwrô Cenedlaethol y Plant ac Achub y Plant

Atodiad

Beth yw barn plant am smacio?

Mae'r llywodraeth ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ddiwygio'r gyfraith ar gosb gorfforol i blant. Maent yn gwneud hyn oherwydd i Gomisiynydd Iawnderau Dynol Ewrop ddyfarnu fod y gyfraith yn y wlad hon wedi methu diogelu plentyn a gafodd ei daro'n rheolaidd ag erfyn gan ei lystad.

Mae Achub y Plant o'r farn ei bod yn wirioneddol bwysig fod plant ifanc yn cael cyfle i adael i'r llywodraeth wybod eu barn. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn awyddus i glywed beth yw barn plant ifanc yng Nghymru am gosb gorfforol ac mae wedi gofyn i Achub y Plant ymgynghori â phlant a bwydo'u sylwadau'n ôl i'r Cynulliad.

Gwneir yr ymgynghori gan …….. Bydd aelod staff o'r clwb ar ôl ysgol yn bresennol hefyd.

I gynorthwyo ein trafodaethau gyda'r plant, byddwn yn defnyddio llyfr stori gyda chymeriad o'r enw Splodge. Cyflwynir Splodge fel cymeriad sy'n awyddus iawn i wybod am fywyd ar y ddaear, yn enwedig am smacio, a bydd yn gofyn cyfres o gwestiynau i'r plant (gweler y cwestiynau ynghlwm).

NI fydd y trafodaethau'n annog plant i siarad am eu profiadau nhw eu hunain gartref. Mae arnom eisiau i blant roi cyngor a gwybodaeth gyffredinol inni yn hytrach na siarad am eu profiad personol.

Os bydd plentyn eisiau siarad am brofiadau personol bydd ei g/chlwb neu ysgol yn dilyn y drefn arferol.

Bydd y trafodaethau grwp yn cymryd rhyw hanner awr. Byddwn yn cymryd nodiadau ac, os yw hynny'n dderbyniol, yn tapio'r drafodaeth. Pan fyddwn wedi gorffen ein trafodaethau i gyd (mae'n fwriad gennym ymweld â thri chlwb ar ôl ysgol) byddwn yn ysgrifennu adroddiad i'r Cynulliad. Anfonwn gopi o'r adroddiad i'ch clwb ar ôl ysgol.

Ni fyddwn yn cynnwys enwau'r plant sy'n cymryd rhan, nac enwau'r clybiau ar ôl ysgol, yn unrhyw beth a ysgrifennwn.

Anne Crowley
Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Rhaglen

Save the Children
Achub y Plant

Beth yw barn plant am smacio?

CWESTIYNAU SPLODGE

1. Pwy sy'n gwybod beth yw smac?

2. Pam mae plant yn cael smac fel arfer?

3. Pwy sydd fel arfer yn smacio plant?

4. Ym mhle gaiff plant eu smacio fel arfer?

5. Sut deimlad ydi cael smac?

6. Sut mae plant yn ymddwyn ar ôl cael smac? Sut mae oedolion yn ymddwyn ar ôl rhoi smac?

7. Mae oedolion yn smacio plant ond pam nad yw plant yn smacio oedolion? Mae plant yn smacio'i gilydd ond pam nad yw oedolion yn smacio'i gilydd?

8. Pan fyddwch chi'n fawr, ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n smacio plant?

9. Ydych chi'n nabod unrhyw un sydd ddim yn hoffi smacio? Pwy sy'n meddwl fod smacio'n ddrwg?

10. Sut allwn ni arbed plant rhag cael eu smacio?

11. Beth ellir ei wneud yn lle smacio?

Save the Children
Achub y Plant

Beth yw barn plant am smacio?

Cydsyniad Rhieni/Gofalwr

Llenwch y ffurflen hon a'i rhoi i'r Athro/Athrawes Dosbarth/Gweithiwr Clwb ar ôl Ysgol

Rwyf yn cytuno y caiff .....
rhan mewn trafodaeth grwp bach ynghylch smacio

Enw'r rhiant/gofalwr .....

Llofnod .....

Dyddiad .....